Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

# Ein heffaith Ebrill – Medi 2023

Yn gynharach eleni lansiwyd ein cynllun corfforaethol newydd ar gyfer 2023–24 i 2026–27, sy'n nodi sut y byddwn yn cefnogi ein haelodau i gynnal eu cymunedau tra'n bod yn parhau i frwydro dros y newidiadau sydd eu hangen i gyflawni'r weledigaeth a rannwn o Gymru lle mae cartref da yn hawl sylfaenol i bawb.

Fel y manylir yn y cynllun, rydym wedi gosod pedair nod glir ac yn hyderus y byddant yn cefnogi ein haelodau i wneud y gwahaniaeth mwyaf i'r bobl a'r lleoedd a wasanaethir ganddynt. Y nodau hyn yw:

1. Sicrhau'r dulliau, cyllid a pholisi sy'n cefnogi cartrefi ansawdd da gan gymdeithasau tai.
2. Dylanwadu ar yr amgylchedd polisi fel y gall cymdeithasau tai barhau i ddarparu cartrefi sy'n fforddiadwy a rhoi cefnogaeth effeithiol i denantiaid sy'n wynebu caledi ariannol.
3. Hyrwyddo ymddiriedaeth mewn cymdeithasau tai a'u cefnogi i adeiladu partneriaethau cryf yn lleol.
4. Sicrhau fod CHC yn gorff aelodaeth ystwyth a chynhwysol ac yn gyflogwr rhagorol.

Yn y diweddariad effaith hwn, rydym wedi nodi'r prif benawdau o'n gwaith dros y chwe mis diwethaf i symud ymlaen tuag at gyflawni'r nodau hyn. Lle'n bosibl, cafodd pob maes ei fapio ar ddwy rôl allweddol CHC yn y sector tai: dylanwadu ar ran ein haelodau, a'u cysylltu gydag arbenigwyr, gwneuthurwyr penderfyniadau a chymheiriaid.

# Ein nod hirdymor: sicrhau'r dulliau, cyllid a pholisi sy'n cefnogi cartrefi ansawdd da gan gymdeithasau tai

***Yn chwe mis cyntaf y flwyddyn, rydym wedi dylanwadu ar ran ein haelodau i:***

- Sicrhau symud o darged heb ei gyllido yn 2033 i gyrraedd EPC:A yn nrafft Safonau Ansawdd Tai Cymru, i ofyniad i seilio cynnydd ar ddatgarboneiddio cartrefi ar lwybr wedi'i gynllunio ac mae tystiolaeth amdano gan bob landlord. Gwyddom fod cyllid yn parhau'n her, a rydym wedi cael ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r sector i ddatblygu pecyn cyllido yn y dyfodol.
- ● Annog ymagwedd gymesur a seiliedig ar dystiolaeth i bryderon am gartrefi mewn cyflwr gwael, a, gan weithio gyda phartneriaid, sicrhau y cymerir dull cydlynus i gefnogi landlordiaid cymdeithasol.
- Sicrhau datblygu dealltwriaeth glir o'r graddau a'r risg a gyflwynir gan RAAC mewn tai cymdeithasol yng Nghymru, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Gweld fod y Model Hyfywedd Safonol yn adlewyrchu cynnydd mewn costau a heriau i adeiladu cartrefi yng Nghymru.
- Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, adeiladu dealltwriaeth ddyfnach o gynnydd ar y targed o 20,000 o gartrefi fforddiadwy, a dull pragmatig i ddileu rhwystrau. Mae hyn wedi cynnwys dull brysbennu newydd gan dîm cynllunio Llywodraeth Cymru, capasiti ychwanegol i ddatgloi safleoedd sydd wedi eu hoedi a pharhau'r grant Rhaglen Cyfalaf Llety Trosiannol ar gyfer 2023-24.
- Rhannu blaenoriaethau'r sector ar gyfer cyllideb Llywodraeth Cymru 2024-25, drwy ymgysylltu cynnar gyda Phwyllgor Cyllid y Senedd.

***Rydym wedi cysylltu ein aelodau â:***

- Rannu dysgu a chefnogi ymateb cymdeithasau tai i broblemau lleithder a llwydni drwy ein grŵp gorchwyl a gorffen ar dai mewn cyflwr gwael. Mae hyn wedi cynnwys dulliau gweithredu ar gyfer data a chyfathrebu'n effeithlon gyda thenantiaid drwy ein gwaith gyda TPAS Cymru. Mae hefyd wedi bod yn sail i'n gwaith traws-bartner at y mater hwn.
- Rhannu arfer da i gefnogi cartrefi ansawdd da. Mae hyn wedi cynnwys ein cyfres gweminarau ar reoli asedau, hyb gwefan arbennig ar dai mewn cyflwr gwael a llinyn datgarboneiddio yn yr Un Gynhadledd Tai Fawr.
- Rhannu a thrafod ymarfer datgarboneiddio drwy grŵp LinkedIn pwnc penodol.
- Sicrhau'r cyngor a'r gefnogaeth gywir drwy ein Cynllun Awdurdod Tân Sylfaenol. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth yng nghyswllt arweiniad ar gyfer blociau fflatiau heb lifft.

***Ar gyfer gweddill 2023-24, bydd ein ffocws ar:***

- Ymgyrchu dros flaenoriaethau cyllid y sector i Lywodraeth Cymru, Aelodau'r Senedd a phleidiau gwleidyddol, ac yn y pen draw ddylanwadu ar gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25.
- Ymestyn ein rhwydwaith Aelodau Bwrdd, fydd â ffocws ar iechyd a diogelwch fel mater blaenoriaeth.
- Meithrin ein dealltwriaeth o ddata a sicrwydd ar dai mewn cyflwr gwael, diogelwch a materion ansawdd a chefnogi trefniadau effeithiol ar gyfer sicrwydd ac adrodd.
- Eirioli dros fodel cyllid cynaliadwy i sicrhau y gall cymdeithasau tai fuddsoddi mewn datgarboneiddio cartrefi a rhannu'r hyn sy'n gweithio i wella effeithiolrwydd ynni cartrefi drwy ein rhaglen ar-lein.
- Sicrhau fod gweithredu SATC 2023 yn gymesur.

- Dylanwadu ar y Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net fel ei fod yn adlewyrchu barn ac anghenion y sector.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i ddynodi cyllid, polisi a newidiadau ymarfer sy'n cefnogi darparu mwy o gartrefi cymdeithasol yng Nghymru.
- Dylanwadu ar ddatblygiad parhaus deddfwriaeth diogelwch adeiladau i sicrhau fod y gweithgaredd sydd ei angen yn gymesur i'r risgiau a amlinellir.

Yn ôl i'r brig

# Ein nod hirdymor: dylanwadu ar yr amgylchedd polisi fel y gall cymdeithasau tai barhau i ddarparu cartrefi sy'n fforddiadwy a rhoi cefnogaeth effeithiol i denantiaid sy'n wynebu caledi ariannol

*Yn chwe mis cyntaf eleni,* ***rydym wedi dylanwadu ar ran ein haelodau i:***

- Godi proffil effaith costau byw ar gyfer tenantiaid yng Nghymru ar lefel genedlaethol. Mae hyn wedi cynnwys rhoi tystiolaeth i Ganghellor y Trysorlys – ynghyd â'n cyd ffederasiynau tai – dros greu tariff ynni cymdeithasol a rhoi tystiolaeth a chefnogaeth i Weinidogion Cymru i ategu'r alwad hon gyda Ofgem a Llywodraeth y DU.
- Datblygu dadansoddiad cynhwysfawr o effaith ystod o sefyllfaoedd i lywio penderfyniad rhent eleni.
- Cyfrannu at y Panel Adolygu Arbenigol a roddodd gyngor i'r gweinidog ar newidiadau deddfwriaethol i roi diwedd ar ddigartrefedd. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau cydnabyddiaeth i waith cymdeithasau tai i atal achosion troi allan rhag datblygu'n ddigartrefedd; mesurau diogelu i osgoi canlyniadau anfwriadol; a dyletswyddau ehangach ar atal a chynnal tenantiaethau i gefnogi dull gweithredu aml-asiantaeth i liniaru ac atal digartrefedd.
- Adeiladu llwyfan cadarnhaol ar gyfer ymgyrchu ar draws partneriaid am newidiadau i'r system ddyrannu sy'n adlewyrchu barn cymdeithasau tai, yn dilyn yr ymchwil y gwnaethom ei gomisiynu ar y cyd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru.
- Arddangos i Lywodraeth Cymru beth yw effaith setliad grant cymorth tai sydd wedi aros yn ei unfan a rhoi sylfaen tystiolaeth ar gyfer setliad cyllideb 2024-25, yn defnyddio tystiolaeth o'r arolwg Materion Tai y gwnaethom ei gynnal gyda Cymorth Cymru.

***Rydym wedi cysylltu ein aelodau â:***

- Rhannu cyfathrebiadau ac ymgysylltu gyda thenantiaid ar osod rhent, gan ddefnyddio TPAS Cymru fel cyfaill beirniadol i gefnogi rhannu parhaus ar arfer gorau.
- Ymgysylltu gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a rhannu profiadau a gweithgareddau sydd wedi sicrhau fforddiadwyedd ar gyfer tenantiaid ac atal digartrefedd, gyda'r nod o wella eu dealltwriaeth o'r meysydd allweddol hyn.
- Rhoi cyfleoedd i ddysgu a rhannu sylwadau ar ailgartrefu cyflym a newidiadau fyddai'n helpu i atal a lliniaru digartrefedd.

***Ar gyfer gweddill 2023, bydd ein ffocws ar:***

- Sicrhau setliad rhent ar gyfer 24-25 gyda fforddiadwyedd a chynaliadwyedd yn ganolog iddo, a gweithio gyda'r sector i ddatblygu cynigion am ddull gweithredu tymor hirach.
- Dylanwadu ar gynigion deddfwriaethol a pholisi i sicrhau fod disgwyliad cymesur o ròl cymdeithasau tai i ddod â digartrefedd i ben, ynghyd â'r adnoddau i atal digartrefedd – yn neilltuol, ddiogelu buddsoddiad yn y Grant Cymorth Tai.
- Cyhoeddi sylfaen tystiolaeth wedi ei ddiweddaru o weithgaredd cymdeithasau tai i liniaru costau byw ac ymgyrchu i lywodraethau liniaru caledu ariannol ar gyfer tenantiaid.

Yn ôl i'r brig

# Ein nod hirdymor: hyrwyddo ymddiriedaeth mewn cymdeithasau tai a'u cefnogi i feithrin partneriaethau cryf yn lleol

***Yn chwe mis cyntaf eleni, rydym wedi dylanwadu ar ran ein haelodau i:***

- Rhoi sylw i rôl a barn darparwyr gofal dim-er-elw fel rhan o'n hymgysylltu ac ymateb i'r ymgynghoriad ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth.
- Cryfhau ein cyrraedd a chysylltiadau o fewn y cyfryngau yng Nghymru a gwasg y sector. Mae'r cysylltiadau gwell hyn hefyd wedi gweld symud drwy gysylltiadau dibynadwy i rannu'n fwy cywir brofiadau cymdeithasau tai a'u tenantiaid.

***Rydym wedi cysylltu ein aelodau â:***

- Casglu ac arddangos cynnydd cymdeithasau tai wrth weithredu Cynllun Cydraddoldeb Hil Llywodraeth Cymru a gweithio gyda Tai Pawb i gefnogi dialog rhwng y Rheoleiddiwr a'r sector tai yng nghyswllt adrodd am ofynion cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y fframwaith rheoleiddiol.

***Ar gyfer gweddill 2023-24, bydd ein ffocws ar:***

- Comisiynu'r ymchwil i ddangos y pwysau sydd ar ddarparwyr gofal dim-er-elw a chyfleoedd ar gyfer diwygio.
- Parhau i gryfhau'r berthynas gyda'r cyfryngau yng Nghymru a mynd ati i ddynodi cyfleoedd i roi sylw i rôl cymdeithasau tai yng nghymdeithas Cymru.
- Adolygu ac, os oes angen, ddiwygio ein dogfennau llywodraethiant allweddol yn cynnwys y cod llywodraethiant.
- Ymgyrchu dros ddull gweithredu hirdymor i gyflawni ein gweledigaeth o Gymru lle mae cartref da yn hawl sylfaenol i bawb, a mynd i'r afael â'r rhwystrau cynnydd sydd yn atal cynnydd.

Yn ôl i'r brig

## Ein nod hirdymor: sicrhau fod CHC yn gorff aelodaeth ystwyth a chynhwysol ac yn gyflogwr rhagorol

***Yn chwe mis cyntaf eleni, fe wnaethom:***

- Ddiwygio ac ehangu ein gwasanaethau aelodau yn seiliedig ar eich sylwadau a'ch adborth. Cyfrannodd 21 o'n haelodau at ein ymgynghoriad, yn ogystal ag adborth gan ystod o aelodau yn 2022-23. Mae mwy o wybodaeth am ein cynnig gwasanaeth newydd estynedig a sut y gallwch gymryd rhan ar gael yma.
- Croesawu 142 cynrychiolydd o 22 o'n haelodau i'r Un Gynhadledd Tai Fawr ym mis Gorffennaf. Dywedodd 85% o'r rhai a roddodd adborth y byddent yn mynychu'r flwyddyn nesaf.
- Cynnal rhaglen lawn o gyfleoedd a digwyddiadau ymgysylltu ar gyfer ein haelodau. Roedd hyn yn cynnwys naw digwyddiad ar-lein, 10 cyfarfod o Grwpiau Cyflenwi Strategol a'n cyfarfod Cymuned Aelodau cyntaf. Rhyngddynt, fe wnaeth cydweithwyr ac aelodau bwrdd o bob un o'n 34 cymdeithas tai ymgysylltu gyda'n digwyddiadau dros 700 gwaith.
- Sicrhau saith partner masnachol newydd sy'n cefnogi'r sector yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae gan bob partner masnachol gyfoeth o wybodaeth ac arbenigedd yn eu maes arbenigol i gefnogi ein haelodau.
- Esblygu ein strwythur mewnol i gynrychioli a darparu gwasanaethau i'n haelodau yn well. Rydym hefyd wedi buddsoddi mewn mwy o adnoddau i ddylanwadu ar eich rhan ac wedi symleiddio'r ffordd y gweithiwn i ddyrannu adnoddau yn well i'r meysydd sydd eu hangen.
- Dechrau buddsoddi yn ein llywodraethiant newydd ac rydym yn awr yn brysur yn cyflawni ein cynllun gweithredu adolygu llywodraethiant.

***Dros weddill 2023/24, bydd ein ffocws ar:***

- Gweithredu a monitro effaith ein cynnig gwasanaeth newydd ar gyfer aelodau.
- Datblygu ein calendr digwyddiadau yn cynnwys ein Cynhadledd Flynyddol a'n Cynhadledd Llywodraethiant.
- Uchafu'r gwerth a gaiff ein haelodau o'n partneriaethau masnachol.
- Cynyddu hygyrchedd ac amlygrwydd ein cynnwys ar gyfer aelodau.
- Cyflawni ein strategaeth ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil.
- Paratoi ar gyfer safonau'r Gymraeg.
- Cyhuddi model ffioedd newydd.
- Cyhoeddi ystod o ganfyddiadau ymchwil yn cynnwys data ar adnoddau dynol a'n Cyfrifon Cynhwysfawr.

Yn ôl i'r brig